


Safleoedd Arddangos a Benodwyd

	Targed	Wedi'u Penodi
Safle Arloesedd	8	8
Safle Arddangos	12	12
Safle Arddangos	36	36

Lleoliad safleoedd arddangos lle mae prosiectau a/neu ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal



- = Safleoedd Arloesedd
- = Safleoedd Arddangos
- = Safleoedd Ffocws

Digwyddiadau a gynhaliwyd ar y Rhwydwaith Safleoedd Arddangos

BLWYDDYN 1 - 1 Hydref 2015 - 30 Medi 2016

Disgrifiad	Nifer safleoedd	Targed blynyddol ar gyfer digwyddiadau	Cynnydd yn ôl y targed blynyddol (cyfanswm)
		Digwyddiadau	Digwyddiadau
Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd	8	30	11
Digwyddiadau Safleoedd Arddangos	12	36	12
Digwyddiadau Safle Ffocws	36	54	33


BLWYDDYN 2 - 1 Hydref 2016 - 30 Tachwedd 2016

Disgrifiad	Nifer safleoedd	Targed blynyddol ar gyfer digwyddiadau	Cynnydd yn ôl y targed blynyddol (cyfanswm)
		Digwyddiadau	Digwyddiadau
Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd	8	30	2
Digwyddiadau Safleoedd Arddangos	12	36	9
Digwyddiadau Safle Ffocws	36	54	3

Mae'r nifer targed ar gyfer safleoedd ym mlwyddyn 1 wedi'i gyflawni, er ei fod wedi cymryd y cyfnod 12 mis cyfan i ganfod, cymeradwyo a sefydlu prosiectau ar y safleoedd hyn. Felly mae oediad wedi bod wrth gynnal cyfarfodydd i rannu canfyddiadau'r prosiect, sy'n cael ei adlewyrchu yn nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn.

Dosraniad gweithgareddau ar y Rhwydwaith Safleoedd Arddangos


RHANIAD FESUL SECTOR



Noder bod ambell brosiect yn trafod mwy nag un sector.

Themâu trawsbynciol

Mae'r graff isod yn dangos y themâu sy'n cael eu trafod yn y prosiectau amrywiol a gynhelir yn y Rhwydwaith Safleoedd Arddangos.



Noder bod ambell brosiect yn trafod mwy nag un sector.

Astudiaethau Sylfaenol

Mae pob un o'r Safleoedd Arloesedd a'r Safleoedd Arddangos wedi cynnal astudiaethau sylfaenol. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu cyfle i adnabod cryfderau a gwendidau o fewn y busnes.

Un enghraifft o hyn yw pan fu i'r astudiaeth ganfod bod safle arddangos yn perfformio'n îs na'r cyfartaledd o'i gymharu â Ffermydd Mynydd tebyg. O ganlyniad i'r gwerthusiad hwn, rydym wedi gweithredu nifer o gynlluniau i wella iechyd a chynhyrchiad defaid.

Y prif weithgaredd oedd canolbwyntio ar gloffni yn y ddiadell sy'n un o'r rhesymau sylfaenol dros gynhyrchiad isel.

CANLYNIADAU HYD YN HYN

→ Yn yr asesiad cyntaf, roedd lefelau cloffni **yn 10%**

Bedair wythnos wedi i'r cynllun gael ei weithredu...

→ roedd **llai na 10%** o'r ddiadell yn gloff

...a deufis yn ddiweddarach -

→ roedd y ffigwr wedi gostwng i **lai na 5%**

Mae nifer y mamogiaid a oedd wedi'u heffeithio wedi lleihau yn ogystal â difrifoldeb y clwyfau a oedd yn bresennol. Mae hyn wedi arwain at wella cyflwr y famog dros y cyfnod hyrddda, a fydd yn adlewyrchu ar nifer yr ŵyn a fydd yn cael eu geni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn y canlyniadau sganio!

Prosiectau a threialon a gychwynwyd yn y Rhwydwaith Arddangos rhwng Medi - Tachwedd 2016:

- 1) Gwerthuso perfformiad a chynhyrchiad y mochyn Cymreig a'r mochyn Hybrid
- 2) Gwella'r gwndwn (Fferm laeth)
- 3) Trechu cloffni mewn mamogiaid
- 4) Hyfywedd blociau conwydd bychain ar fferm
- 5) Nodweddion genomeg y carcass
- 6) Camerâu gwartheg
- 7) Pum Opsiwn ar gyfer pesgi ŵyn
- 8) Addasrwydd defnyddio gwahanol fathau o feillion mewn system organig
- 9) Opsiynau posib ar gyfer gaeafu
- 10) Mesurau ataliol i wella iechyd lloeau
- 11) Defnydd o wrtaith ar gyfradd amrywiol ar laswelltir

PROSIECTAU SYDD I DDOD:

Safle Arloesedd

GWEITHREDU TECHNOLEG AR GYFER CANFOD CLOFFNI YN GYNNAR

Gall technoleg chwarae rôl bwysicach yn y dyfodol o ran rheoli a lleihau cloffni mewn gwartheg a allai fod yn gostus iawn ar gyfer buches laeth. Ar Safle Arloesedd Trawscoed, bydd system 'Matrics Camau' yn cael ei ddefnyddio i fesur pwysedd a chyfeiriad symudiad carnau gwartheg wrth adael y parlwr. Mae hyn yn caniatáu dadansoddi data'n ddyddiol, darganfod newidiadau mewn symudiad ynghynt a monitro gwelliant.

Yn ogystal, bydd technoleg GPS yn cael ei ddefnyddio i fonitro ymddygiad gwartheg (pori, gorffwys a newidiadau mewn patrwm cerdded) sy'n awgrymu cloffni cyn i gerdded y fuwch newid yn weledol. Mae technoleg yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn buchesi a gedwir dan do ar gyfer monitro ffrwythlondeb a rhinweddau iechyd, ond mae'n llai cyffredin yn y fuches sy'n pori. Bydd y prosiect yn rhedeg trwy gydol tymor pori 2017 yn monitro ac yn gwerthuso ymddygiad gwartheg yn wyddonol er mwyn archwilio dulliau o ganfod cloffni ynghynt.

DEILLIANAU'R PROSIECT - Enghreifftiau

SAFLE ARDDANGOS

Gweddillion Treuliad Anaerobig fel bio-wrtaith

Mae'r gweddillion yn sgil-gynnyrch o dreuliad anaerobig a bu prosiect Safle Arddangos diweddar ar fferm Newton Farm, Scethrog, Aberhonddu yn cymharu'r defnydd o weddillion hylifol wedi'i wasgaru mewn tair ffordd wahanol a'i gymharu â gwrtiaith cyfansawdd.


Cafodd twf glaswellt ei gofnodi'n wythnosol am saith wythnos gyda'r canlyniadau canlynol:

Twf Glaswellt

Mesurwyd twf glaswellt gan ddefnyddio mesurydd plât unwaith yr wythnos ar bob llain, gweler y canlyniadau isod:



FARMING connect
cyswllt
FFERMIO



	26 Gorff	11 Awst	18 Awst	25 Awst	01 Medi	07 Medi	12 Medi
Rheolaeth	1552	1756	1827	1927	2215	2365	2440
Crib Ymlusgol (Trailing Shoe)	1552	2177	2302	2790	3002	3440	4014
Chwistrellwr Disg	1552	2065	2265	2715	3227	3665	4295
Plât Tasgu	1552	1865	2015	2365	2627	3265	3692
Gwrtiaith	1552	2065	1990	2327	2752	3490	4084



Gan ddefnyddio prisiau gwrtiaith cyfartalog ar gyfer eleni, roedd y gwahaniaeth cost rhwng gwrtiaith a'r gweddillion treuliad yn sylweddol -

Cyfanswm cost y gwrtiaith cyfansawdd
= £45.40 o faethynnau/erw (heb gynnwys costau wasgaru)

Cost gweddillion treuliad £2 y dunnell wedi'i wasgaru @ 9.11 t/erw
= £18 o faethynnau/erw

NEGSEUON ALLWEDDOL O'R PROSIECT:

Gwasgarwch yn synhwyrol gan ystyried yr amgylchedd, mynegai'r pridd a gofynion y cnwd.

SAFLEOEDD FFOCWS

Gwella effeithlonrwydd gwartheg sugno trwy sicrhau'r pwysau gorau ar gyfer y fuwch llawn dwf


Mae'r prosiect yn anelu i werthuso newidiadau mewn pwysau'r fuwch llawn dwf ac effeithlonrwydd y fuwch o ran pwysau'r llo a ddiddyfnwyd fel canran o bwysau'r fuwch. Mae hyn yn erbyn cefndir o newid o eneteg gynhenid i eneteg gyfandirol ynghyd â defnyddio teirw gydag EBV tyfiant uchel i gynhyrchu heffrod cyfnewid.

Byddai pwysau llawn dwf is yn arwain at lai o gostau cynnal ar gyfer y fuwch gan gynyddu effeithlonrwydd a phroffidoldeb. Mae'r data a gasglwyd hyd yn hyn yn dangos nad yw cadw buwch lai o faint bob amser yn arwain at gynhyrchu lloeau ysgafnach.


Trawsnewid uned biff a defaid stoc sefydlog i system bori cylchdro

Mae'r prosiect yn dangos y broses o drawsnewid o fferm biff a defaid stoc sefydlog i system bori cylchdro a'r manteision cysylltiedig. Mae'r prosiect hwn yn amlgu'r holl ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â rhannu'r fferm a gosod yr isadeiledd perthnasol a darparu cynllun ar gyfer trawsnewidiadau o'r fath.

Mae'r fferm wedi'i rannu'n badogau er mwyn rheoli a chydlynu'r pori'n effeithiol trwy gydol y tymor.



Mae meddalwedd Farmax yn darparu'r adnodd ar gyfer asesu a gwerthuso cyflenwad glaswellt a'r galw gan dda byw.



Trwy reoli cynhyrchiad glaswellt yn gywir trwy bori cylchdro, roedd yr ardal 24 Hectar o laswellt a oedd wedi'i neilltuo yn cynnal 400 o famogiaid a'u hŵyn trwy'r tymor pori. Yn ychwanegol i flynyddoedd blaenorol, mae'r un ardal bori 24 Hectar wedi darparu 220 o fymau mawr silwair ychwanegol, gan ddangos gwelliant sylweddol o ran defnydd. Ar gost gyfartalog o £15/bwrn byddai hyn yn gyfwerth â £3,300 yn ychwanegol, neu'n gyfwerth â chynnydd o 25% yn y gyfradd stocio.

www.llyw.cymru/cyswlltffermio - 08456 000 813

Facebook.com/FarmingConnect @FarmingConnect

